# SYLWADAU

## Y Seiliau Penodedig *(Ticiwch un o'r canlynol)*

☐ **Ni ddigwyddodd y tramgwydd honedig.**
Esboniwch pam rydych yn credu na chafwyd tramgwydd.

☐ **Nid oeddwn erioed yn berchen ar y cerbyd dan sylw/neu**

☐ **Roeddwn wedi peidio â bod yn berchen arno cyn dyddiad y tramgwydd honedig/neu**

☐ **Deuthum yn berchen arno ar ôl dyddiad y tramgwydd honedig.**
Os ydych wedi prynu neu werthu'r cerbyd, mae'n rhaid i chi roi enw a chyfeiriad y perchennog newydd neu'r hen un, os yw'r manylion gennych. Hefyd, rhowch ddyddiad y gweithrediad ac unrhyw fanylion eraill a chyn hwyswch gopïau o unrhyw ddogfen, megis anfoneb neu fil gwerthiant.

☐ **Mae'r cerbyd wedi cael aros yn llonydd yn y lle dan sylw gan y sawl a oedd yn ei reoli heb ganiatâd y perchennog.**
Ticiwch y blwch hwn os cafodd eich cerbyd ei ddwyn neu ei gymryd heb eich caniatâd. Rhowch unrhyw wybodaeth ategol sydd gennych, e.e. un rhyw gyfeirnod trosedd neu gyfeirnod hawliad yswiriant.

☐ **Rydym yn gwmni hurio cerbydau ac roedd y cerbyd ar hur o dan gytundeb hurio ac mae'r huriwr wedi llofnodi'r datganiad yn cydnabod atebolrwydd am unrhyw HDC a gyhoeddir yn ystod y cyfnod hurio.**
Mae'n rhaid i'r cytundeb hurio gymhwyso trwy gynnwys manylion rhagnodedig. Mae'n rhaid i chi roi enw a chyfeiriad yr huriwr. Hefyd, rhowch gopi o'r cytundeb wedi'i lofnodi.

☐ **Roedd y tâl cosb yn uwch na'r swm perthnasol o ran yr achos hwn**
Ticiwch y blwch hwn os ydych yn credu y gofynnir i chi dalu mwy na'r hyn sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith ac esbonio pam.

☐ **Bu amhriodoldeb gweithredol gan yr awdurdod gorfodi**
Ticiwch y blwch hwn os ydych yn credu bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi methu cydymffurfio ag unrhyw ofyniad a osodir gan y Deddf Rheoli Traffig 2004, a.78. Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2013. Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Sylwadau ac Apelau) (Cymru) 2013. Nodwch y gofyniad statudol, y terfyn amser neu'r cam gweithredol arall rydych yn credu bod y cyngor wedi methu cydymffurfio ag ef.

☐ **Mae'r gorchymyn yr honnir y cafodd ei dramgwyddo mewn perthynas â'r cerbyd dan sylw'n annilys.**
Esboniwch pam rydych yn credu bod y Gorchymyn dan sylw'n annilys. Sylwer – ni fydd y sail hon yn berthnasol ynghylch darpariaeth mewn Gorchymyn y mae Rhan VI Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 yn berthnasol iddo.

☐ **Ni ddylai'r Hysbysiad hwn fod wedi'i roi am fod y tâl cosb eisoes wedi'i dalu:**
**(i) yn llawn; neu**
**(ii) ar y gyfradd ostyngol** a bennwyd yn unol ag Atodlen 9 Deddf Rheoli Traffig 2004 ac o fewn yr amser a bennwyd ym mharagraff 1(h) Atodlen i'r Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2013. (nodwch swm y taliad a wnaed a sut a phryd y gwnaed y taliad a chynnwys copi o unrhyw wybodaeth ddogfennol atodol fel derbynneb neu gyfriflen banc. D.S. Dylai'r gyfradd ostyngol o 50% fod wedi cael ei thalu cyn diwrnod olaf y 14 diwrnod gan ddechrau gyda dyddiad rhoi'r PCN.

☐ **Os ydych yn credu bod unrhyw reswm arall i'r cyngor ddiddymu'r hysbysiad o dâl cosb a dychwelyd unrhyw swm a dalwyd eisoes, ticiwch y blwch hwn a nodwch y rhesymau hynny'n llawn yn y blwch isod.**

**Ysgrifennwch eich sylwadau yma** *(atodwch dudalennau ychwanegol os oes angen) (Hysbysiadau o Dâl Cosb, Gorfodi a Dyfarnu)*

***Enw a chyfeiriad prynwr/gwerthwr/huriwr y cerbyd*** *(lle bo'n berthnasol)*

**Cadarnhaf fod fy sylwadau'n gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth. Sylweddolaf y gall gwneud datganiad anghywir, yn ymwybodol neu'n fyrbwyll, arwain at erlyniad a dirwy ar ôl euogfarn hyd at lefel 5 y raddfa safonol (£5,000 ar hyn o bryd).**

**Llofnod:** ______ **Dyddiad:** ______

**ENW** (mewn priflythrennau) ______ **Swydd yn y cwmni** (os yw'n berthnasol) ______

**SUT I DALU**

**1)** Gellir talu trwy gerdyn credyd/debyd trwy ffonio **0161 622 6919.**

**2) AR-LEIN**
Talu ar-lein yn **www.npt.gov.uk**
Dilynwch y ddolen ar-lein ar gyfer talu ar-lein.

**3) TRWY'R POST**
Gan ddefnyddio'r slip talu gyferbyn a'i anfon i:
**Gwasanaethau Parcio, Canolfan Ddinesig,**
**Port Talbot SA31 1PJ**

**4) YN BERSONOL**
Yn unrhyw un o ddesgiau talu'r Cyngor.

**5) TRWY GERDYN CREDYD/DEBYD**
**Llenwch mewn priflythrennau**

Nodwch fath eich cerdyn

Rhif y Cerdyn

Enw ar y Cerdyn

Llofnod Deiliad y Cerdyn

Cyhoeddwr y Cerdyn

Swm
£

Cerdyn yn Ddilys
O Tan

Rhif Cyhoeddi Switch